



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adolygiad Dilynol o Godio Clinigol— **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Blwyddyn archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1183A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Delyth Lewis.

Cynnwys

Er gwaethaf lefel uchel o gywirdeb, mae cyflawnrwydd codio'n fater sylweddol ac nid yw proffil data wedi'i godio a'r defnydd ohono i gefnogi gwelliant wedi cynyddu ers ein gwaith blaenorol. Er y gwnaed cynnydd rhesymol o ran rhoi ein hargymhellion blaenorol ar waith, mae rhai materion yn dal heb eu datrys.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Ein canfyddiadau	6
Er bod cywirdeb y data clinigol wedi'i godio'n dal i fod yn uchel, mae'r ffigyrau cyflawnrwydd islaw targedau cenedlaethol ac mae gan y Bwrdd Iechyd ôl-groniad sylweddol	6
Mae gan godio clinigol broffil isel ac nid yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio data wedi'i godio i gefnogi gwelliant	8
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol ar ein hargymhellion blaenorol, ond mae materion mewn perthynas â chofnodion clinigol ac adrodd ar berfformiad codio ar lefel y Bwrdd yn dal heb eu datrys	9
Argymhellion	10
Atodiadau	
Atodiad 1 – cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ein hargymhellion yn 2014	12
Atodiad 2 – canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd	18
Atodiad 3 – ymateb rheolwyr	20

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae codio clinigol yn golygu trosi gwybodaeth glinigol ysgrifenedig (megis diagnosis a thriniaeth claf) i fformat cod. Bydd codydd clinigol yn dadansoddi gwybodaeth am gyfnod o ofal claf ac yn aseinio codau safonedig a gydnabyddir yn rhyngwladol¹.
- 2 Mae data clinigol wedi'i godio o ansawdd da yn hanfodol i reoli ysbytai a gwasanaethau. Mae data wedi'i godio'n tanategu cryn dipyn o'r wybodaeth reoli o ddydd i ddydd a ddefnyddir yn y GIG ac fe'i defnyddir mewn nifer o wahanol systemau ac fe'i cyflwynir mewn gwahanol fformatau. Gellir ei ddefnyddio i roi cymorth i gynllunio gofal iechyd, dyrannu adnoddau, dadansoddi costau, cynnal asesiadau o effeithiolrwydd triniaeth a gall fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer nifer o archwiliadau clinigol.
- 3 Mae'n ofynnol i adrannau codio yng nghyrrff GIG Cymru gyrraedd safonau a bennir gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawnrwydd a chywirdeb data wedi'i godio. Mae perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn rhan o adroddiadau blynyddol cyrff y GIG ar ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth.
- 4 Yn ystod 2014-15, fe adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol y trefniadau codio clinigol yn holl gyrrff perthnasol y GIG yng Nghymru. Tynnodd y gwaith hwnnw sylw at nifer o feysydd i'w gwella megis cywirdeb codio, ansawdd cofnodion meddygol ac ymgysylltu rhwng codyddion, clinigwyr a staff cofnodion meddygol.
- 5 Canfuom hefyd fod cyrff y GIG yn rheolaidd yn ystyried bod codio clinigol yn rôl cefn swyddfa, a'i bod yn aml yn wir mai ychydig o gydnabyddiaeth oedd i'r wybodaeth a dealltwriaeth arbenigol yr oedd angen i staff fod yn meddu arnynt. Yn ogystal â hynny, nid oedd yr holl gyrrff iechyd yn deall pwysigrwydd codio clinigol i'w busnes o ddydd i ddydd.
- 6 Ym mis Hydref 2014, fe gyhoeddodd ni adroddiad ar ein canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) ac roedd yr adroddiad yn dod i'r casgliad canlynol: 'er bod lefel dda o fuddsoddi wedi bod mewn gwaith codio clinigol, roedd amrywiaeth o wendidau yn y trefniadau a'r prosesau codio clinigol yn lleihau cywirdeb data clinigol wedi'i godio yn sylweddol. Yn fwy penodol, canfuom fel a ganlyn:
 - roedd y Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd codio clinigol, ond gall fod yr adnoddau wedi bod yn annigonol, roedd angen cysylltiadau cryfach â chofnodion iechyd ac roedd angen i'r Bwrdd ganolbwyntio mwy ar gydymffurfio â thargedau cenedlaethol;

¹ Ar gyfer diagnosisu, y Dosbarthiad Clefydau Rhyngwladol, 10fed rhifyn (ICD-10), ac ar gyfer triniaeth, Dosbarthiad Ymyriadau a Thriniaethau OPCS fersiwn 4 (OPCS).

- roedd effeithiolrwydd y broses codio clinigol yn cael ei danseilio gan lefel isel o ymgysylltu clinigol, mynediad araf at gofnodion meddygol, ansawdd gwael cofnodion meddygol a diffyg gwaith dilysu ac archwilio rheolaidd; ac
 - roedd data clinigol wedi'i godio yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol mewn perthynas â dilysrwydd a chysondeb, ond roedd rhywfaint o'r gwaith codio yn anghywir, roedd amseroldeb wedi gwaethygu ac nid oedd y Bwrdd yn ymwybodol o'r gwallau na'u goblygiadau.
- 7 Fe wnaethom argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:
- gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses codio clinigol yn effeithiol;
 - cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu;
 - cryfhau'r broses ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses codio clinigol yn cael ei chydabod; a
 - datblygu'r lefel dda o ymwybyddiaeth o godio clinigol yn y Bwrdd er mwyn sicrhau bod gan yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad codio clinigol y Bwrdd lechyd.
- 8 Fel rhan o gynllun archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2018 yn y Bwrdd lechyd, rydym wedi archwilio'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn yr **Adolygiad o Godio Clinigol yn 2014** ac unrhyw welliant mewn perfformiad o ran codio clinigol a ddeilliodd o hynny.
- 9 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi:
- adolygu dogfennaeth, gan gynnwys adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau;
 - gofyn i'r Bwrdd lechyd hunanasesu ei gynnydd hyd yma;
 - dadansoddi data codio clinigol a anfonwyd at Lywodraeth Cymru;
 - ceisio barn aelodau'r bwrdd² ynglŷn â'u dealltwriaeth am godio clinigol; a hefyd
 - cyfweld â staff i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.
- 10 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Mae **Atodiad 1** yn darparu sylwebaeth benodol ar gynnydd yn erbyn pob un o'n hargymhellion blaenorol.

² Cafodd nifer o gwestiynau a oedd yn ymwneud â chodio clinigol eu cynnwys yn yr arolwg o aelodau'r bwrdd a oedd yn rhan o'n gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2018. Cafwyd cyfanswm o wyth ymateb allan o 19 o ymatebion posibl.


Ein canfyddiadau

- 11 Ein casgliad ar y cyfan yw: **er gwaethaf lefel uchel o gywirdeb, mae cyflawnrwydd codio'n fater sylweddol ac nid yw proffil data wedi'i godio a'r defnydd ohono i gefnogi gwelliant wedi cynyddu ers ein gwaith blaenorol. Er y gwnaed cynnydd rhesymol o ran rhoi ein hargymhellion blaenorol ar waith, mae rhai materion yn dal heb eu datrys.**

Er bod cywirdeb y data clinigol wedi'i godio'n dal i fod yn uchel, mae'r ffigyrau cyflawnrwydd islaw targedau cenedlaethol ac mae gan y Bwrdd Iechyd ôl-groniad sylweddol

- 12 Mae gan Lywodraeth Cymru ddau darged Haen 1 sy'n gysylltiedig â chodio y mae'n ofynnol i gyrrff y GIG eu cyrraedd. Mae'r rhain yn ymwneud â chyflawnrwydd a chywirdeb.
- 13 Bob blwyddyn, mae cyrff y GIG yn anfon data at Lywodraeth Cymru sy'n dangos eu perfformiad yn erbyn y targed Haen 1 ar gyfer **cyflawnrwydd**. Y targed yw y dylai 95% o'r cyfnodau mewn ysbytai fod wedi'u codio o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod. Mae angen i gyrrff y GIG gyrraedd y targed hwn yn fisol yn hytrach nag ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, fel yn flaenorol. Dengys **Arddangosyn 1** fod cyflawnrwydd y Bwrdd Iechyd wedi gwaethygu'n sylweddol ers 2017 gyda pherfformiad yn rheolaidd islaw perfformiad Cymru gyfan, a tharged Llywodraeth Cymru.


Arddangosyn 1: y ganran o gyfnodau a godiwyd o fewn un mis i ddyddiad terfyn y cyfnod



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata codio clinigol a gyflwynwyd mewn adroddiadau i Lywodraeth Cymru.

- 14 Bob blwyddyn, mae Tîm Safonau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gwirio **cywirdeb** codio clinigol trwy adolygu sampl o gyfnodau wedi'u codio yn erbyn tystiolaeth yng nghofnodion meddygol y cleifion. Mae disgwyl i gyrff y GIG ddangos gwelliant blynyddol. Yn 2018, canfu Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fod cywirdeb ar gyfer diagnosis sylfaenol, diagnosis eilaidd, triniaeth sylfaenol a thriniaeth eilaidd wedi mynd y tu hwnt i'r trothwyon a argymhellir. Ar y cyfan fe wellodd cywirdeb codio clinigol yn y Bwrdd Iechyd o 77% yn 2015 i 93% yn 2017 gyda chywirdeb ar y cyfan yn ddigyfnewid yn 2018 ([Arddangosyn 2](#)).

Arddangosyn 2: canran y cyfnodau a godiwyd yn gywir



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Adroddiad Archwilio ar Godio Clinigol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

* Sylwer: oherwydd capasiti yn nhîm codio clinigol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, cynhaliwyd un adolygiad o gywirdeb yn ystod y cyfnod 2015-16 a 2016-17.

- 15 Yn ein gwaith blaenorol, fe adroddon mai'r sefyllfa ar ddiwedd mis Chwefror 2014 oedd bod tua 12,500 o gyfnodau mewn ysbytai heb eu codio o fewn yr amserlen ofynnol. Fel rhan o'n gwaith maes, fe ofynnem ni am sefyllfa'r ôl-groniad ar gyfer y

flwyddyn 2017-18, er mwyn deall i ba raddau yr oedd cyfnodau yn peidio â chael eu codio o fewn yr amserlen o un mis. Nododd y Bwrdd lechyd fod ôl-groniad sylweddol o 46,638 o gyfnodau a oedd yn dal heb gael eu codio. Mae hyn bron i bedair gwaith nifer y cyfnodau heb eu codio yn 2014. Yn seiliedig ar lwyth gwaith safonol o 30 cyfnod y dydd, rydym yn amcangyfrif y byddai'n cymryd pump i chwe blynedd i un unigolyn glirio'r ôl-groniad. Amcangyfrif y Bwrdd lechyd ei hun yw bod arno angen wyth codydd ychwanegol i glirio'r ôl-groniad a chyrraedd y targed cyflawnrwydd o 95% a chynnal y perfformiad hwnnw.

Mae gan godio clinigol broffil isel ac nid yw'r Bwrdd lechyd yn defnyddio data wedi'i godio i gefnogi gwelliant

- 16 Yn 2014, fe ganfuom nad oedd holl gyrff y GIG yn deall pwysigrwydd ehangach codio clinigol i'w busnes. Ar ben hynny, roeddent yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy helaeth, er enghraifft trwy:
 - asesu nifer y cleifion ar lwybrau clinigol; a
 - darparu data cymharol ar weithgarwch i werthuso cynhyrchiant, ansawdd a pherfformiad.
- 17 Mae proffil y tîm codio clinigol yn gymharol isel o fewn y Bwrdd lechyd. Mae hyn yn fwyaf amlwg mwy na thebyg wrth ystyried lleoliad y timau codio, gyda rhai wedi'u lleoli oddi ar safle'r prif ysbyty mewn adeilad anaddas. Nid oes ganddynt unrhyw fynediad at wasanaethau glanhau ac maent yn wynebu anawsterau'n fisol lle mae'r generadur yn pallu a systemau'n diffodd. Nid yw bod wedi'u lleoli i ffwrdd o ardaloedd clinigol yn helpu i wneud codyddion yn weladwy i staff clinigol; fodd bynnag, mae'r tîm codio wedi cyflwyno rhagor o sesiynau ymwybyddiaeth i staff meddygol gwrdd â staff codio.
- 18 Canfu ein gwaith dilynol mai anaml y gofynnir i'r tîm codio am ddata wedi'i godio i roi cymorth i wella gwasanaethau. Mae'r tîm codio'n mynychu cyfarfodydd adolygu marwolaethau lle defnyddir data wedi'i godio ond gall fod yn anodd cael darlun cywir pan fo ôl-groniad o ran data a phan nad yw targedau cyflawnrwydd yn cael eu cyrraedd.
- 19 Ceir strwythur rheoli eglur ar gyfer y swyddogaeth godio hyd at lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, nid yw'r holl wybodaeth am berfformiad codio yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd. Ar hyn o bryd cyflwynir adroddiadau ar berfformiad cyflawnrwydd yn erbyn y targed yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r targed cenedlaethol ond ni chyflwynir adroddiadau ar y ffigur cywirdeb a'r sefyllfa o ran yr ôl-groniad ar lefel y Bwrdd ar hyn o bryd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol ar ein hargymhellion blaenorol, ond mae materion mewn perthynas â chofnodion clinigol ac adrodd ar berfformiad codio ar lefel y Bwrdd yn dal heb eu datrys

20 Mae **Arddangosyn 3** yn crynhoi statws ein hargymhellion yn 2014.

Arddangosyn 3: statws o ran cynnydd ein hargymhellion yn 2014

Cyfanswm yr argymhellion	Wedi'u rhoi ar waith	Ar y gweill	Yn hwyr	Wedi'u disodli
15	8	7	0	0

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

- 21 Mae ein gwaith dilynol wedi canfod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn ein hargymhellion yn 2014, er bod nifer o argymhellion yn dal ar y gweill.
- 22 Nid yw ansawdd cofnodion meddygol wedi gwella ers ein gwaith archwilio yn 2014, er bod yr adran codio clinigol a chofnodion meddygol wedi bod yn rhagweithiol o ran cynnal sesiynau ar gyfer staff clinigol a nyrsio ar bwysigrwydd trefniadau cadw cofnodion da. Dywedodd staff codio wrthym fod cyfran fawr o'n hamser yn cael ei dreulio'n olrhain nodiadau rhydd neu'n ail-ffeilio nodiadau mewn trefn resymegol. Mae'r tîm Cofnodion Meddygol wedi adnabod materion ar lefel ward, sef bod clerod wardiau heb gael llawer o hyfforddiant neu heb gael unrhyw hyfforddiant ar bwysigrwydd trefniadau cadw cofnodion meddygol da a'r offeryn olrhain ar Myrddin. Mae'r tîm Cofnodion Meddygol wedi cynnal archwiliad diweddar o brosesau ac ymddygiadau clinigol wardiau mewn perthynas â'r Cofnod Iechyd. Digwyddodd hwn ar yr un pryd â'r archwiliad blynyddol o Safonau Iechyd a Gofal ar draws yr holl wardiau yn y Bwrdd Iechyd. Roedd canfyddiadau ac argymhellion ddau archwiliad yn mynd i gael eu cyfuno a'u cyflwyno mewn adroddiad i'r Cyfarwyddwr Nyrsio. Ar adeg ein harchwiliad ni, nid oedd y canlyniadau ar gael eto. Mae mynediad at gofnodion meddygol ar gyfer codyddion yn dal i fod yn broblem. Er bod gan godyddion fynediad da ar y cyfan, gall oedi ddigwydd os nad oes ganddynt fynediad at y cofnodion wedi'u sganio. Gall problemau ddigwydd hefyd wrth gael mynediad at gofnodion sy'n ymwneud â chleifion ymadawedig cyn iddynt fynd i'r adran gwynion.
- 23 Fe wnaed cynnydd da o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion yn 2014 ynghylch adnoddau codio clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn unigryw yn yr ystyr bod ganddo archwilydd cymwysedig a hyfforddwr cymwysedig yn y tîm codio. O ganlyniad, sefydlwyd rhaglen dda o archwiliadau rheolaidd ar gyfer pob codydd a chamau dilynol gyda hyfforddiant dilynol fel y bo angen. Fodd bynnag, bu trosiant staff uchel, lefelau uchel o salwch, ac fe rewyd prosesau recriwtio, sydd wedi effeithio ar

gyflawnrwydd codio ac mae ôl-groniad sylweddol o ganlyniad. Mae'r adran godio'n dal i beidio â defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o Medicode hefyd, oherwydd problemau gyda'i gyflwyno'n genedlaethol ledled Cymru.

- 24 Mae ymgysylltiad y tîm codio â staff meddygol yn gwella ond mae'n dal i fod yn gymharol afreolaidd. Mae staff codio'n tueddu i gysylltu ag ysgrifenyddion meddygol neu godyddion ar reng uwch i ddatrys ymholiadau codio. Mae'r un peth yn wir am gynnwys staff meddygol mewn gwaith dilysu. Mae codyddion wedi dechrau cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhai arbenigeddau, ond dim ond ar raddfa fach y mae hyn yn digwydd. Fodd bynnag, bu gwelliannau yn yr hyfforddiant ar gyfer staff meddygol ac mae gan godyddion slot rheolaidd ar raglenni sefydlu meddygon iau ac maent yn cynnwys sesiynau hyfforddi gydag arbenigeddau unigol.
- 25 Ers ein hadolygiad blaenorol yn 2014 bu newid sylweddol yn aelodaeth y bwrdd. Er bod y Rheolwr Codio a'r Cyfarwyddwr Meddygol yn cwrdd bob chwe wythnos i drafod sut i wella trefniadau adrodd ar ddeilliannau cleifion gan ddefnyddio'r data wedi'i godio, ychydig iawn o wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno mewn adroddiadau i'r Bwrdd ar godio. Mae lefel yr ymwbyddiaeth ymhlith aelodau'r bwrdd wedi dirywio hefyd. Mae canlyniadau llawn yr arolwg o aelodau'r bwrdd i'w gweld yn [Atodiad 2](#).

Argymhellion

- 26 Mae angen i'r Bwrdd lechyd barhau i roi ein hargymhellion blaenorol ar waith lle mae'r rhain yn dal yn anghyflawn. Caiff y rhain eu nodi yn [Arddangosyn 4](#).
- 27 Wrth wneud y gwaith hwn, rydym hefyd wedi gwneud dau argymhelliad newydd. Caiff y rhain eu nodi yn [Arddangosyn 5](#).

Arddangosyn 4: argymhellion sy'n dal heb gael eu rhoi ar waith ers 2014

Argymhellion a wnaed yn 2014 sy'n dal heb gael eu cwblhau

Rheoli Cofnodion Meddygol

- A1 Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses codio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys:
- cynyddu pwysigrwydd cofnodion meddygol o safon ledled y Bwrdd lechyd;
 - rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau bod gan godyddion fynediad cynnar at gofnodion meddygol; ac
 - gwella cydymffurfiaeth â'r adnodd olrhain cofnodion meddygol yn System Gweinyddu Cleifion Myrddin.

Argymhellion a wnaed yn 2014 sy'n dal heb gael eu cwblhau

Adnoddau Codio Clinigol

- A2 Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys:
- b) adolygu lefelau staffio'r holl dimau, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr oriau sy'n cael eu neilltuo i swyddogion casglu data; ac
 - e) gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf o Medicode.

Ymgysylltu â Staff Meddygol

- A3 Cryfhau'r broses ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses codio clinigol yn cael ei chydabod. Dylai hyn gynnwys:
- c) cynnwys staff meddygol yn y broses ddilysu.

Ymgysylltu â'r Bwrdd/Adnoddau'r Bwrdd

- A4 Datblygu'r lefel dda o ymwybyddiaeth o godio clinigol yn y Bwrdd er mwyn sicrhau bod gan yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad codio clinigol y Bwrdd Iechyd. Dylai hyn gynnwys cydymffurfiaeth y Bwrdd Iechyd â thargedau Llywodraeth Cymru o leiaf

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

Arddangosyn 5: argymhellion newydd

Argymhellion 2019

Adnoddau Codio Clinigol

- A1 Er mwyn rhoi cymorth i gadw codyddion clinigol cymwysedig, dylai'r Bwrdd Iechyd:
- a) sicrhau bod adeilad y gweithle'n addas ac yn ddiogel;
 - b) sicrhau bod cyfleusterau'r gweithle'n gymesur ag adrannau eraill; ac
 - c) archwilio trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer staff.

Rheoli Cofnodion Meddygol

- A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd:
- a) adolygu'r ffordd y caiff cofnodion meddygol eu rheoli ar lefel wardiau;
 - b) sicrhau bod clercod wardiau'n cael eu rhyddhau i fynychu hyfforddiant ar reoli cofnodion sy'n berthnasol i'w rôl;
 - c) sicrhau bod gan glercod wardiau amser digonol wedi'i neilltuo i reoli cofnodion.

Atodiad 1

Cynnydd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ein hargymhellion yn 2014

Arddangosyn 6: asesu cynnydd

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Rheoli cofnodion meddygol			
A1 Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses codio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys:			
a) cynyddu pwysigrwydd cofnodion meddygol o safon ledled y Bwrdd Iechyd	Ar y gweill		Dywedodd y timau codio clinigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall nad yw ansawdd cofnodion meddygol wedi gwella ers ein harchwiliad diwethaf yn 2014. Mae cofnodion yn cael eu cam-ffeilio'n aml, mae nodiadau rhydd yn eisiau ynddynt nu maent yn cynnwys diagnosisu aneglur sy'n anodd i'w codio. Mae swyddogion cymorth codio clinigol yn treulio cyfran fawr o'u hamser yn dod o hyd i nodiadau rhydd ar gyfer codyddion. Mae mater sy'n ymwneud â ffeilio cofnodion ar gyfer cleifion ymadawedig wedi cael eu ganfod. Ceir diffyg brys wrth ddod o hyd i nodiadau rhydd i sicrhau bod y cofnod meddygol yn gyflawn.
b) atgyfnerthu safonau Coleg Brenhinol y Meddygon ar gyfer Rheoli Cofnodion ledled y Bwrdd Iechyd;	Wedi'i roi ar waith		Mae staff cofnodion meddygol a chodio clinigol yn cynnal sesiynau hyfforddi a sefydlu rheolaidd ar gyfer clinigwyr, staff nyrsio ac arweinwyr is-adrannau. Yn y sesiynau hyn, darperir canllawiau gan Goleg Brenhinol y Meddygon ar bwysigrwydd cadw cofnodion meddygol da ar gyfer y staff sy'n bresennol yn y sesiwn.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Rheoli cofnodion meddygol			
A1 Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses codio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys:			
c) rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau bod gan godyddion fynediad cynnar at gofnodion meddygol;	Ar y gweill		Ar y cyfan mae gan godyddion fynediad cynnar at gofnodion meddygol er y gall fod oedi os nad oes ganddynt fynediad at y dogfennau wedi'u sganio yn gyntaf. Canfu staff broblemau gyda chael gafael ar nodiadau cleifion ymadawedig cyn eu bod yn cael eu hanfon i'r adran gwynion hefyd.
d) gwella cydymffurfiaeth â'r adnodd olrhain cofnodion meddygol yn System Gweinyddu Cleifion Myrddin;	Ar y gweill		Mae'r tîm Cofnodion Meddygol wedi cwblhau cyfres o archwiliadau ar draws pob ward gan gynnwys adolygiad o wybodaeth clercod wardiau ar safleoedd y ddau brif ysbyty. Canfuont fod y broblem fwyaf yn ymwneud â diffyg hyfforddiant ar bwysigrwydd trefniadau cadw cofnodion da ar gyfer clercod wardiau. Dywedodd clercod wardiau wrth y tîm Cofnodion Meddygol nad oeddent wedi cael hyfforddiant ar system Myrddin i olrhain cofnodion. Mae'r hyfforddiant ar gael, ond nid ydynt yn cael eu rhyddhau o'r wardiau i'w fynychu. Mae'r adran cofnodion meddygol wedi cynhyrchu adroddiad yn ddiweddar ar gyfer y Cyfarwyddwr Nyrsio, sy'n ceisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch rheoli cofnodion meddygol ar lefel wardiau. Ar adeg ein harchwiliad ni, nid oedd yr adroddiad ar gael.
e) cryfhau'r cysylltiadau rhwng cofnodion meddygol a chodio trwy wahodd cynrychiolwyr codio i ymuno â'r Pwyllgor Cofnodion Iechyd; a	Wedi'i roi ar waith		Mae'r berthynas rhwng cofnodion meddygol a chodio clinigol yn dda. Mae gan godyddion eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfod PRISM (Rheolwyr Gwasanaethau Gwybodaeth a Chofnodion Cleifion) misol sy'n bwydo i mewn i Bwyllgor Cofnodion Iechyd y Bwrdd Iechyd.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Rheoli cofnodion meddygol			
A1 Gwella'r broses o reoli cofnodion meddygol er mwyn sicrhau bod ansawdd cofnodion meddygol, a mynediad atynt, yn cefnogi'r broses codio clinigol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys:			
f) sicrhau bod profiad codyddion o ddefnyddio'r cofnod iechyd wedi'i ddigideiddio yn cael ei ystyried yn rhan o'r cynllun peilot digideiddio.	Wedi'i roi ar waith		Cafodd staff codio clinigol eu cynnwys mewn cyfarfodydd cyn rhoi'r cofnod iechyd wedi'i ddigideiddio (DHR) ar waith. Nid oedd modd ymgorffori rhai o'u syniadau cychwynnol ond cynhelir cyfarfodydd yn barhaus gyda'r rheolwr newid busnes a rheolwr y prosiect i drafod pryderon codyddion.
Adnoddau Codio Clinigol			
A2 Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys:			
a) sicrhau bod lefel briodol o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer mentora a gwirio gwaith eraill, yn enwedig ymysg staff Band 4;	Wedi'i roi ar waith		Mae cynllun hyfforddi yn ei le ar gyfer yr holl ddechreuwr newydd sy'n ymuno â'r tîm codio gyda mentor band 4 yn cael ei neilltuo i wirio gwaith hyfforddeion, sy'n rhan o'u rhaglen waith.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Adnoddau Codio Clinigol			
A2 Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys:			
b) adolygu lefelau staffio'r holl dimau, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr oriau sy'n cael eu neilltuo i swyddogion casglu data;	Ar y gweill		<p>Bu problemau gyda recriwtio staff codio gan bod rhai swyddi wedi'u rhewi yn 2012. Rhyddhawyd a recriwtiwyd i'r swyddi hyn yn ddiweddar, ond mae hyn wedi cyfrannu at y sefyllfa negyddol o ran ôl-groniad y maent ynddi erbyn hyn.</p> <p>Mae agosrwydd y Bwrdd Iechyd at y ffin gyda Lloegr wedi golygu ei fod wedi cael anhawster cadw codyddion cymwysedig, y mae sefydliadau preifat sy'n gallu cynnig trefniant gweithio gartref a chyflogau mwy deniadol yn cysylltu â hwy.</p> <p>Er mwyn lleihau'r ôl-groniad codio, yn ogystal â chyrraedd y targed cyflawnder o 95%, mae'r Bwrdd Iechyd yn amcangyfrif y bydd angen wyth codydd ychwanegol arno. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl am gadarnhad o'r ffigyrau gweithgarwch a ragwelir ar gyfer Ysbyty newydd Grange cyn cyflwyno achos busnes am adnoddau ychwanegol.</p>
c) defnyddio'r capasiti archwilio ychwanegol i ddatblygu rhaglen dreigl o archwilio codio clinigol ledled y Bwrdd Iechyd;	Wedi'i roi ar waith		Mae pob codydd yn cael archwiliad unigol fel rhan o raglen archwilio dreigl flynyddol sy'n cael ei rhedeg gan archwilydd codio clinigol cymeradwy'r Bwrdd Iechyd. Wedyn doir â'r adroddiadau archwilio hyn ynghyd mewn adroddiad trosolwg. Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, archwilwyd 520 o gyfnodau wedi'u codio.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Adnoddau Codio Clinigol			
A2 Cryfhau'r broses o reoli timau codio clinigol i sicrhau bod data codio clinigol o ansawdd da yn cael ei greu. Dylai hyn gynnwys:			
d) adolygu rôl y cydgysylltydd codio clinigol i sicrhau bod cyfrifoldebau'r pedwar aelod o staff yn debyg; a	Wedi'i roi ar waith		Ers ein harchwiliad diwethaf, mae'r pedair swydd cydgysylltydd wedi dod yn fwy strwythuredig. Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa unigryw o ran bod ag archwilydd cymwysedig a hyfforddwr cymwysedig. Hefyd, mae ganddo reolwyr llinell ar gyfer prif safleoedd Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall.
e) gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf o Medicode.	Ar y gweill		Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi uwchraddio i fersiwn 5.9 eto gan bod problemau wedi bod gydag uwchraddio mewn byrddau iechyd eraill. Unwaith y bydd y problemau wedi'u datrys bydd y Bwrdd Iechyd yn rhoi'r fersiwn diweddaraf ar waith.
Ymgysylltu â staff meddygol			
A3 Cryfhau'r broses ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses codio clinigol yn cael ei chydabod. Dylai hyn gynnwys:			
a) codi ymwybyddiaeth o'r broses codio clinigol sy'n cael ei mabwysiadu gan y Bwrdd Iechyd trwy sesiynau hyfforddi ar gyfer staff meddygol, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd priodol;	Wedi'i roi ar waith		Mae'r tîm codio'n darparu sesiynau ymwybyddiaeth o godio clinigol ar gyfer staff meddygol a nyrsio. Mae'r sesiynau hyn hefyd yn gyfle i godyddion ofyn cwestiynau i staff meddygol am yr arbenigedd penodol. Mae gan y tîm codio slot rheolaidd fel rhan o hyfforddiant sefydlu meddygon iau hefyd.
b) annog codyddion clinigol i fod yn fwy gweladwy i ymgynghorwyr, er enghraifft, trwy ofyn am eglurhad ganddynt am gyfnodau gofal cleifion; ac	Wedi'i roi ar waith		Anogir codyddion i ymgysylltu ag ymgynghorwyr meddygol a chaiff unrhyw ymholiadau eu cyfeirio fel arfer trwy'r rheolwyr codio neu drwy ysgrifenyddion meddygol yn y lle cyntaf. Mae presenoldeb mewn sesiynau ymwybyddiaeth, y cyfeirir atynt uchod, hefyd yn darparu cyfleoedd i godyddion fod yn fwy gweladwy i ymgynghorwyr ac i ofyn cwestiynau neu geisio eglurhad.

Argymhelliad	Statws	Dyddiad targed ar gyfer ei roi ar waith	Crynodeb o'r cynnydd
Ymgysylltu â staff meddygol			
A3 Cryfhau'r broses ymgysylltu â staff meddygol i sicrhau bod swyddogaeth gadarnhaol meddygon yn y broses codio clinigol yn cael ei chydabod. Dylai hyn gynnwys:			
c) cynnwys staff meddygol yn y broses ddilysu.	Ar y gweill		Mae'r hyfforddwr codio clinigol yn cwrdd ag un o'r ymgynghorwyr fasgwlaidd yn chwarterol i sicrhau cywirdeb ac fe hoffai'r Bwrdd lechyd gyflwyno'r dull hwn mewn mwy o arbenigeddau i gynnwys mwy o staff meddygol yn y broses ddilysu.
Ymgysylltu â'r Bwrdd/Adnoddau'r Bwrdd			
A4 Datblygu'r lefel dda o ymwybyddiaeth o godio clinigol yn y Bwrdd er mwyn sicrhau bod gan yr aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad codio clinigol y Bwrdd lechyd. Dylai hyn gynnwys cydymffurfiaeth y Bwrdd lechyd â thargedau Llywodraeth Cymru o leiaf.	Ar y gweill		<p>Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad codio clinigol i'r Bwrdd trwy'r dangosfwrdd perfformiad integredig. Er mai 95% yw'r targed cenedlaethol ar gyfer cyflawnrwydd codio clinigol, mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i gyflawni cyflawnrwydd o 80% o leiaf yn ôl dangosfwrdd y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Yn y cyfamser, ni chyflwynir adroddiad i'r Bwrdd ar ganran cywirdeb codio clinigol.</p> <p>Fe arolygom ni holl aelodau'r Bwrdd o ran eu dealltwriaeth am godio clinigol. Cawsom gyfradd ymateb o 74%. Roedd y farn yn gymysg, er enghraifft, dywedodd un aelod o'r bwrdd nad oedd wedi clywed am y swyddogaeth godio ac roedd un arall wedi cwrdd â'r Pennaeth Codio yn ddiweddar.</p> <p>Dywedodd aelodau'r bwrdd nad oeddent yn fodlon ar yr wybodaeth yr oeddent yn ei chael am gadernid trefniadau codio clinigol yn y Bwrdd lechyd. Dywedodd y mwyafrif y byddent yn ei chael yn ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad.</p>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru.

Atodiad 2

Canlyniadau'r arolwg o aelodau'r bwrdd

Cafwyd ymatebion oddi wrth 17 aelod o'r bwrdd yn y Bwrdd Iechyd. Ceir dadansoddiad o'r ymatebion isod.

Arddangosyn 7: Cyfradd bodlonrwydd ar agweddau ar godio

	Pa mor fodlon ydych chi ar yr wybodaeth yr ydych yn ei chael am gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?		Pa mor fodlon ydych chi bod eich sefydliad yn gwneud digon i sicrhau bod trefniadau codio clinigol yn gadarn?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Cwbl fodlon	–	6	–	5
Bodlon	3	34	6	40
Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	11	46	8	46
Anfodlon	3	10	2	4
Cwbl anfodlon	–	–	1	1
Cyfanswm	17	96	17	96

Arddangosyn 8: cyfradd ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gadernid codio clinigol

	Pa mor ymwybodol ydych chi o'r ffactorau a all effeithio ar gadernid trefniadau codio clinigol yn eich sefydliad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ymwybyddiaeth lawn	1	26
Peth ymwybyddiaeth	9	50
Ymwybyddiaeth gyfyngedig	6	17
Dim ymwybyddiaeth	1	3
Cyfanswm	17	96

Arddangosyn 9: Iefel pryder a defnyddiadwyedd hyfforddiant

	Ydych chi'n pryderu bod eich sefydliad yn rhy barod i briodoli tanberfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol i broblemau gyda chodio clinigol?		Ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o wybodaeth am godio clinigol ac i ba raddau y mae'n effeithio ar ansawdd gwybodaeth allweddol am berfformiad?	
	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan	Y Bwrdd Iechyd Hwn	Cymru Gyfan
Ydw	–	8	15	77
Nac ydw	16	84	2	19
Cyfanswm	4 16	92	17	96

Arddangosyn 10: sylwadau ychwanegol a ddarparwyd gan ymatebwyr o'r Bwrdd Iechyd

P
<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn siŵr beth yw codio clinigol; rwyf wedi clywed sôn amdano ac rwy'n meddwl fy mod yn cofio un adroddiad archwilio a oedd yn ei grybwyll, ond nid wyf yn siŵr o'i arwyddocâd o ran asesu cynnydd yn erbyn amcanion y sefydliad. • Rwyf wedi cwrdd â'r Pennaeth Codio ac rwy'n deall y cyfyngiadau a'r risgiau, a'r hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr

Arddangosyn 10: ymateb y rheolwyr

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/ budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Wedi'i dderbyn (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1	<p>Adnoddau Codio Clinigol</p> <p>Er mwyn rhoi cymorth i gadw codyddion clinigol cymwysedig, dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <p>a) sicrhau bod adeilad y gweithle'n addas ac yn ddiogel;</p> <p>b) sicrhau bod cyfleusterau'r gweithle'n gymesur ag adrannau eraill; ac</p> <p>c) archwilio trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer staff.</p>	Er mwyn cadw codyddion clinigol presennol a sicrhau bod yr amgylchedd gweithio'n addas.	le	Do	Bydd adolygiad llawn o godio clinigol yn cael ei gynnal fel rhan o'r asesiad effaith ar gyfer Ysbyty Athrofaol newydd Grange; bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r adeiladau. Mae codyddion clinigol profiadol yn hanfodol i sicrhau codio clinigol sy'n gyson o ansawdd da. Mae gan y BI hanes da o gyflawni hyn yn gyson.	Cwblhau'r adolygiad erbyn mis Mawrth 2020.	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Perfformiad a Gwybodaeth

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad/ budd a fwriedir	Blaenoriaeth uchel (ie/na)	Wedi'i dderbyn (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
R2	<p>Rheoli Cofnodion Meddygol</p> <p>Dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <p>a) adolygu'r ffordd y caiff cofnodion meddygol eu rheoli ar lefel wardiau;</p> <p>b) sicrhau bod clercod wardiau'n cael eu rhyddhau i fynychu hyfforddiant ar reoli cofnodion sy'n berthnasol i'w rôl;</p> <p>c) sicrhau bod gan glercod wardiau amser digonol wedi'i neilltuo i reoli cofnodion..</p>	Gwella safon cofnodion meddygol ar lefel wardiau.	Ie	Do	Caiff rôl clercod wardiau ei rheoli gan chwiorydd y wardiau unigol ac nid yw staff yn cael hyfforddiant rheoli cofnodion ar hyn o bryd. Mae gofyniad i ryddhau staff i fynychu'r sesiynau Ymwybyddiaeth o Gofnodion ac mae gofyn i hyn gael ei wneud yn elfen orfodol o'u portffolio hyfforddiant ym ogystal â hyfforddiant System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) ar olrhain cofnodion.	31 Rhagfyr 2019	Cyfarwyddwr Nysio i orchymyn

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru